Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Gweithiwr Cymorth** |
| **Lleoliad:** | **Mewn gwasanaeth – Gwasanaethau Llety Anabledd Dysgu** |
| **Cyfarwyddiaeth:** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Cyflog:** | **Gradd 5 (£28,624 - £31,586 pro rata / y flwyddyn)** |
| **Oriau:** | **15.0 awr x 2** |
| **Contract:** | **Parhaol** |
| **Math o swydd:** | **Allanol** |

## Crynodeb o'r Swydd

Ydych chi'n angerddol am wneud gwahaniaeth ym mywydau unigolion ag anableddau dysgu? Mae ein hamgylchedd Byw â Chymorth yn chwilio am weithiwr cymorth tosturiol ac ymroddedig i ymuno â'n tîm. O fewn Byw â Chymorth, rydyn ni'n credu mewn grymuso'r unigolion rydyn ni'n eu cefnogi, gan roi'r rhyddid a'r rheolaeth maen nhw'n eu haeddu dros eu bywydau eu hunain.

## Hysbyseb Lawn

## Ynglŷn â'r rôl

Ymunwch â ni fel gweithiwr cymorth a gwnewch wahaniaeth gwirioneddol ym mywydau unigolion ag anableddau dysgu. Efallai y bydd gan y rôl hon ei heriau, ond bydd eich agwedd gadarnhaol a'ch meddwl cyflym yn eich helpu i'w goresgyn.

Fel gweithiwr cymorth, byddwch yn cael blas ar dasgau amrywiol a gwobrau ystyrlon bob dydd. Nid swydd yn unig mohoni; mae'n gyfle i roi anogaeth, arweiniad a chefnogaeth ddiwyro. Eich cenhadaeth? Grymuso unigolion i fyw'n annibynnol a gwneud eu dewisiadau eu hunain, gan hyrwyddo rhyddid a boddhad. Byddwch yn cael y cyfle i ddarparu cymorth a gofal hanfodol i unigolion mewn angen, gan eu helpu i fyw eu bywydau i'r eithaf. Mae ein tîm wedi ymrwymo i ddarparu'r lefel uchaf o ofal wrth feithrin amgylchedd gwaith cefnogol a chydweithredol. Ymunwch â ni a gwnewch wahaniaeth ym mywydau eraill wrth adeiladu gyrfa foddhaus i chi'ch hun.

Mae eich gallu i fod yn hyblyg yn hanfodol ar gyfer diwallu anghenion amrywiol y bobl rydym yn eu cefnogi. Dewch i ymuno â ni yn y rôl werth chweil hon lle mae pob dydd yn dod â chyfleoedd newydd i ysbrydoli bywydau a chreu newid cadarnhaol.

**Amdanoch chi**

Rydym yn chwilio am unigolyn tosturiol ac ymroddedig sydd ag angerdd gwirioneddol dros gefnogi pobl ag anableddau dysgu. Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn meddu ar ymdeimlad dwfn o empathi, agwedd gadarnhaol, a pharodrwydd i oresgyn heriau gyda meddylfryd gallu gwneud. Mae hyblygrwydd yn allweddol, gan y bydd disgwyl i chi weithio shifftiau amrywiol, gan gynnwys yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau a gwyliau banc, gan sicrhau bod anghenion amrywiol ein preswylwyr yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu cryf yn hanfodol, gan y byddwch yn cydweithio'n agos â chydweithwyr, preswylwyr a'u teuluoedd i ddarparu'r gofal a chymorth gorau posibl. Os oes gennych chi'r galon a'r ymroddiad i wneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau pobl eraill, rydym yn eich annog i ymuno â'n tîm Byw â Chymorth a dod yn rhan hanfodol o'n cenhadaeth i rymuso a chefnogi unigolion ag anableddau dysgu.

**Pam Byw â Chymorth?**

**Effaith Ystyrlon:** Fel gweithiwr cymorth, byddwch yn chwarae rhan ganolog wrth wella bywydau unigolion ag anableddau dysgu. Bydd eich ymroddiad yn cyfrannu'n uniongyrchol at eu hannibyniaeth a'u lles cyffredinol.

**Grymuso:** Rydyn ni'n blaenoriaethu rhoi cymaint o reolaeth â phosib i'r bobl rydyn ni'n eu cefnogi dros eu bywydau. Bydd eich rôl yn cynnwys meithrin annibyniaeth, annog dewisiadau personol, a sicrhau amgylchedd diogel a chefnogol lle gall unigolion ffynnu.

**Gwaith Gwerth Chweil:** Cewch y boddhad o wybod eich bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Bob dydd, byddwch yn cael y cyfle i greu newid cadarnhaol ac ysbrydoli'r rhai yr ydych yn eu cefnogi.

Barod i fod yn rhan o dîm arbennig? Rydym yn ymdrechu i fod yn gyflogwr o ddewis, gan ddenu a chadw unigolion eithriadol sy'n rhannu ein hangerdd dros wasanaethu cymunedau amrywiol Blaenau Gwent.

Ein haddewid i chi yw amgylchedd gwaith cynhwysol a chefnogol lle gallwch ryddhau eich potensial llawn a bod yn chi eich hun. Byddwn yn darparu cyfleoedd eithriadol i chi ar gyfer twf personol a datblygiad gyrfa, hyfforddiant gorfodol ac arbenigol, cynllun pensiwn hael, polisïau gweithio hyblyg, a llawer mwy!

Os ydych chi'n barod i gychwyn ar daith werth chweil, gan feithrin annibyniaeth a chyfoethogi bywydau pobl eraill, Byw â Chymorth yw'r lle i chi. Ymunwch â ni i greu amgylchedd anogol lle gall pawb ffynnu. Gwnewch gais nawr a byddwch yn rhan hanfodol o'n cenhadaeth i rymuso a chefnogi unigolion ag anableddau dysgu.

Eisiau gofyn cwestiwn i ni?

Os hoffech chi gwrdd â'r tîm neu gael trafodaeth anffurfiol, cysylltwch â:

Helen Beecham **|** Helen.Beecham@blaenau-gwent.gov.uk **|** 01495 305805

Mae angen cofrestriad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y swydd hon. Os nad ydych wedi cofrestru eisoes, yna bydd angen i chi gofrestru o fewn chwe mis i ddechrau eich cyflogaeth. Mae gwybodaeth am sut i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael ar y wefan ganlynol: https://gofalcymdeithasol.cymru

**Cynhelir sgrinio cyn-gyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am ddatgeliad cofnodion troseddol.**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Dyddiad Cau:** **27/03/2025 – 12:00am, hanner nos**
**Dyddiad Cyfweliad:** **I'w gadarnhau**